**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 21 Hydref 2020 am 4.30 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Adams | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd A Calvert | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd A Chapman | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Cullwick |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd J Davies |
| Y Cynghorydd L De Vet | Y Cynghorydd M Diamond |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd J Elliott |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd M Fidler Jones |
| Y Cynghorydd M Forey | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd H Fychan | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd J Harries |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd L Hooper |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J James |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd L Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd S Pickering |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd S Powell |
| Y Cynghorydd S. Rees-Owen | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd M Webber |
| Y Cynghorydd E Webster | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd R Yeo |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**25 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, A Davies-Jones, Sera Evans, E George, M Griffiths, K Jones, M Tegg, RK Turner, M Weaver, L Walker, D Williams, G Williams a C Willis.

**26 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:-

**Eitem 2 ar yr Agenda - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Davies - “Rydw i'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan - “Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, fydda i ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – “Mae fy mab yn feddyg ac yn gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – “Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans – “Rwy'n gweithio i'r GIG”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey – “Rwy'n gyn-gynrychiolydd Aelodau Etholedig ar gyfer y Bwrdd Iechyd”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman – “Rwy'n gyn-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo - “Mae fy ngwraig yn cael ei chyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – “Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned”

**Eitem 8 ar yr Agenda - Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig – y Newyddion Diweddaraf**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman - "Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2020-2021 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid".

(**Nodwch: Cafodd datganiad o fuddiant pellach ei wneud yn hwyrach yn y cyfarfod (gweler cofnod 36)**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Griffiths - “Rwy'n ymddiriedolwr ar Gylch Meithrin Evan James ym Mhontypridd”

**27 Munud o Dawelwch**

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan fod 54 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers Trychineb Aberfan a gofynnwyd i'r Aelodau fyfyrio ar y digwyddiad trwy gynnal munud o dawelwch.

**28 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Croesawodd y Cyngor Mr Mick Giannasi, Cadeirydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, a rannodd cyflwyniad Power Point sy'n mynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- Pwrpas y sesiwn gwybodaeth
- Llinell amser cynnydd - Y Prif Bwyntiau
- Adroddiad Cynnydd - Medi 2020
- Tystiolaeth o Gynnydd Pellach mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
- Cynnal Gwelliannau Tymor Hir - Datblygiadau Eraill
- Asesiad o Gynnydd yn erbyn y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
- Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer y cyfnod nesaf
- Canlyniadau Covid-19
- Rhaglen Adolygiadau Clinigol Annibynnol
- Adborth yr Adolygiad Clinigol - Risgiau a Chyfleoedd
- Crynodeb o'r negeseuon allweddol

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Gadeirydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth am ei gyflwyniad a oedd wedi rhannu'r diweddaraf mewn perthynas â materion penodol ac wedi dangos y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud. Roedd yr Arweinydd hefyd wedi cydnabod gonestrwydd y Bwrdd Iechyd yn ystod y trafodaethau a'r cyflwyniadau a'r cynnydd a ddangoswyd trwy'r panel annibynnol.

O ran pryderon blaenorol ynghylch recriwtio, morâl staff, gofynnodd yr Arweinydd a yw'r pryderon mewn perthynas â materion staffio'n cael eu rheoli mewn modd priodol. Roedd yr Arweinydd hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan staff yr amser i roi sylw a gofal i'r teuluoedd.

Dywedodd Mr Giannasi fod angen mynd i'r afael â dau fater eang, y cyntaf yw diwylliant y sefydliad, sy'n newid yn araf deg a sut mae'r sefydliad yn ymateb i drallod. Ychwanegodd y bu diffyg gofal a thosturi ond mae yna dystiolaeth o welliannau sylweddol ac mae'r adolygiadau annibynnol, megis y rhai sydd wedi'u cyflawni gan Gyngor Iechyd Cymuned ac Arolygiaeth Gofal Cymru, yn cefnogi'r dystiolaeth yma. Ar wahân i ymddygiad staff, ychwanegodd Mr Giannasi fod ymddygiad y garfan rheoli hefyd wedi newid o achosion o fwlio a diwylliant o roi'r bai ar eraill, ond byddai'r newid yma'n cymryd amser. Yn ddiweddar, lansiodd y Bwrdd Iechyd ei Raglen Gwerthoedd ac Ymddygiad ac mae rhaglenni newid

arweinyddiaeth ar waith. Mae cwynion ac adborth sy'n cael eu cyflwyno gan fenywod a theuluoedd yn parhau i gael eu monitro'n ofalus.

Cododd Mr Giannasi bryder ynglŷn â sut mae'r sefyllfaoedd hynny lle mae unigolion a theuluoedd wedi wynebu colled yn cael eu datrys, a sefyllfaoedd lle mae effaith sylweddol ar unigolion ac ar enw da'r Bwrdd Iechyd. Er bod nifer fach o achosion fel hyn, mae mesurau ar waith i annog y Bwrdd Iechyd i symud tu hwnt i gyfreitha a thuag at ddull cyfryngu, gan ystyried dulliau newydd o helpu unigolion.

Cafodd y Cyngor wybod bod rhaglen Birth Rate Plus yn cael ei defnyddio er mwyn i'r Byrddau Iechyd gyflawni asesiadau o ran lefelau staffio. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Hydref 2019, sy'n golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r gwaith yn gynt na'r disgwyl.

Cadarnhaodd Mr Giannasi fod gan y Bwrdd Iechyd weithdrefnau ar gyfer monitro lefelau staffio bob dydd, yn wythnosol a misol ac mae'n cael ei ddwyn i gyfrif ar y materion yma gan Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu strategaeth gynllunio'r gweithlu hir dymor i sicrhau ei bod yn ddiogel, bod modd ei reoli, ei bod hi'n addas at y diben ac yn mynd i'r afael â'r materion allweddol fel oriau goramser a nyrs gronfa. Dywedodd Mr Giannasi fod lefelau staffio yn briodol a bod mecanweithiau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)**

Disgrifiodd y Cynghorydd Jarman y scandal fel digwyddiad â chost uchel o ran trallod unigolion, ond roedd hi wedi cydnabod y newyddion cadarnhaol mae Mr Giannasi wedi'i rannu yn ei gyflwyniad, o ganlyniad i'r ymyrraeth sydd wedi darparu amgylchedd diogel ar gyfer y rheiny sydd ar fin dod yn rhieni dros y misoedd nesaf.

Holodd y Cynghorydd Jarman a yw'r nifer uchel o achosion Covid-19 yn yr ysbytai wedi effeithio ar yr Adran Mamolaeth neu a oedd y rhain heb eu cynnwys yn y ffigurau a gafodd eu cyhoeddi'n ddiweddar?

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jarman at ei sylwadau cynharach yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2020 i Gadeirydd y Bwrdd Iechyd a oedd yn galw am ymchwiliad gan yr Heddlu ynghylch a oedd unrhyw droseddau wedi'u cyflawni mewn perthynas â dynladdiad corfforaethol, a oedd trafodaethau gyda'r Heddlu wedi arwain at lansio ymchwiliad ffurfiol ac, os felly, a fyddan nhw'n cael eu cynnwys yn rhan o ganfyddiadau'r adolygiad clinigol terfynol pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi? Ai'r unigolion fydd y cyntaf i weld eu canfyddiadau cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Prif Weinidog?

Rhoddodd Mr Giannasi wybod bod y gwasanaethau mamolaeth a'r cynllun gwella yn cael eu cynnal er bod covid wedi effeithio ar lefelau salwch sydd wedi arwain at heriau gweithredol i'r Bwrdd Iechyd ond doedd dim modd iddo ddweud rhagor ar gyfraddau heintiau.

Cadarnhaodd Mr Giannasi fod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng Heddlu De Cymru, y Bwrdd Iechyd a'r Panel Goruchwylio Annibynnol ac mae gweithdrefnau ar waith pe byddai'r panel o'r farn bod angen ymchwiliad troseddol. Mae mecanweithiau tebyg ar waith er mwyn i'r panel wneud atgyfeiriadau i'r heddlu. Ble y bo'n addas, mae yna fecanwaith tebyg ar gyfer

adrodd i gyrff proffesiynol ac i'r Crwner os oes angen. Cadarnhaodd Mr Giannasi fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y Panel, y Bwrdd Iechyd a'r Heddlu a byddan nhw'n cyfarfod yn fuan i drafod y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad.

Cadarnhaodd Mr Giannasi y cysylltir â'r unigolion a'r teuluoedd sy'n rhan o ganfyddiadau'r adolygiad clinigol ar unwaith ar ôl llunio canfyddiadau'r adolygiad. Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu atyn nhw dros yr wythnosau nesaf gan gynnig trosolwg eang o'r canfyddiadau. Bydd croeso iddyn nhw gael copi o'r adroddiad. Ar ôl pythefnos, byddan nhw'n cael ymateb llawn gan y Bwrdd Iechyd a fydd yn nodi beth mae'r Bwrdd eisoes wedi'i wneud neu beth fydd y Bwrdd yn ei wneud wrth ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad. Bydd y canfyddiadau'n mynd i'r afael â materion clinigol a phersonol. Gofynnwyd i bob un o'r menywod a oedden nhw'n dymuno dweud eu hanes. Os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, mae'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi darparu gwasanaeth eirioli er mwyn rhoi cymorth a chefnogaeth iddyn nhw drwy gydol y broses. Bydd cyfle hefyd i'r teuluoedd gael ymgynghoriad un wrth un gyda'r Panel Annibynnol neu'r Bwrdd Iechyd. I gloi, pwysleisiodd Mr Giannasi fod y menywod a'r teuluoedd yn ganolbwynt i'r adolygiad.

**Y Cynghorydd M Powell (Grŵp Annibynnol RCT)**

Holodd y Cynghorydd Powell y cwestiynau canlynol: -

A oedd y problemau mewn perthynas â darpariaeth mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn hysbys cyn i'r gwaith ad-drefnu gael ei wneud yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysog Cymru ar ôl i Lywodraeth Cymru orfodi'r gwaith neu ar ôl i Brif Weinidog Cymru orfodi'r Bwrdd Iechyd i weithredu'r newidiadau? A fyddai unrhyw un o'r newidiadau wedi digwydd oni bai am y cais am adolygiad Annibynnol?

O ran y marwolaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, doedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ddim wedi gweithredu'r cynllun 15 pwynt, ac mae'n ymddangos fel bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ardaloedd Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, dydy'r Fwrdeistref Sirol yma ddim yn cael ei gwasanaethau gan Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae hyn yn ymddangos yn annheg pan ddylai fod yn fwrdd iechyd i ni i gyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Powell beth ddylai wedi cael ei wneud i osgoi’r sefyllfa yma yn y lle cyntaf ac a fyddai’r rheiny sy’n gyfrifol yn cael eu henwi yn yr adroddiad?

Dywedodd Mr Giannasi nad oedd modd iddo siarad am y digwyddiadau cyn yr ad-drefnu sydd eisoes wedi cael ei wneud, roedd gwasanaethau eisoes wedi dod at ei gilydd cyn gwaith y Panel Goruchwylio.

Pwysleisiodd nad yw hyn yn archwiliad neu ymchwiliad annibynnol, ond panel goruchwylio annibynnol sydd wedi cael ei sefydlu gan y Gweinidog gyda'r dasg o sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn unol ag argymhellion y Coleg Brenhinol.

Mae hon yn broses i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r methiannau hynny ac yn darparu gwasanaeth y mae gan bobl hawl iddo.

Diolchodd y Llywydd i Mr Giannasi am ei bresenoldeb a'i gyflwyniad i'r Cyngor.

**29 Atal Rheolau Sefydlog**

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas ag atal Rheol Trefniant 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

Yn seiliedig ar nifer yr Aelodau oedd wedi mewngofnodi i gyfarfod rhithwir y Cyngor, rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fanylion am nifer yr Aelodau Etholedig oedd yn bresennol fesul Grŵp: -

Llafur - 38
Plaid Cymru - 15
Y Blaid Geidwadol - 1
Grŵp Annibynnol RhCT - 5

**30 Cyhoeddiadau**

- Rhoddodd y Llywydd wybod ei fod e wedi derbyn deiseb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones ar ran preswylwyr Coed-elái sy'n gwrthwynebu Cynnig T2020/191/1 - Cyfyngiadau Dim aros ar unrhyw adeg rhwng Heol Cwm Elái a Theras Tylcha Fach.

- Dymunodd yr Arweinydd longyfarch Mr Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran - Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng-flaen ar ennill Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) ar Restr Anrhydeddau'r Frenhines. Cyfeiriodd at hanes hir Mr Wheeler o weithio i'r Cyngor a'i waith caled wrth hyrwyddo mentrau ailgylchu'r Cyngor megis Bryn Pica a'r EnviroPark

- Dymunodd Arweinydd yr Wrthblaid ganmol arwyr di-glod a gwirfoddolwyr RhCT yn dilyn y llifogydd a covid-19. Roedd hi'n gobeithio y byddai'r Cyngor yn cydnabod eu gwaith yn rhan o 'Wobr Dinasyddion Da' y Maer. Dymunodd y Cynghorydd Jarman longyfarch pob un a dderbyniodd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig, gan gynnwys Mr Wheeler a Julie Cook, sy'n hyrwyddwr y gymuned a weithiodd yn galed i gefnogi'r grwpiau hynny sy'n agored i niwed.

- Dymunodd y Cynghorydd G Hughes longyfarch Elizabeth Buffy Williams o Bentre a enillodd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig, roedd hi wedi gwneud ei gorau glas i helpu'r gymuned yn ystod pandemig Covid-19.

- Dymunodd y Cynghorydd T Williams longyfarch James a Dylan Piper o Aberdâr ar gyrraedd rownd derfynol Britain's Got Talent gan gynrychioli

RhCT.

**31 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 10 ac 16 Medi, 2020, yn rhai cywir.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad ar y camau gweithredu y gofynnodd Aelodau amdanyn nhw yn dilyn y Rhybudd o Gynnig yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Hydref 2020. Dywedodd fod ei gydweithwyr yn yr Uwch Garfan Rheoli yn dod â chynnwys y nodyn gwybodaeth at ei gilydd. Bydd hyn yn cael ei rannu ag Aelodau yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn adlewyrchu'r cyfyngiadau newydd sydd ar waith.

**32 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol, y Cynghorydd Jarman i Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol y Cynghorydd M. Diamond, Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd.**

"A allwch chi egluro pa rôl rydych chi a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei chwarae wrth hyrwyddo llywodraethu da?"

**Ymateb y Cynghorydd M Diamond**

"Dywedodd y Cynghorydd Diamond fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn chwarae rhan bwysig yng ngwaith llywodraethu'r awdurdod yma, fel y'i diffinnir gan Fesur Llywodraeth Leol 2011. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y lefel briodol o gymorth a mesurau ar waith i alluogi Aelodau Etholedig i gyflawni'u rolau mewn modd effeithlon a hyrwyddo pwysigrwydd y broses ddemocrataidd a'i rôl wrth wneud penderfyniadau ".

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Jarman:**

"Dywedodd y Cynghorydd Jarman fod Cynghorwyr yn derbyn ystod eang o gymorth, ond prin ydy'r cyngor yn cydnabod aelodau y tu allan i'r Adain Weithredol ac maen nhw'n cael eu trin fel nad oes ots ganddynt amdanyn nhw, mae methu â chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb mewn perthynas â'r gwasanaethau mamolaeth yn enghraifft o hyn. Yn achos cymorth gweinyddol a chymorth o ran technoleg, mae'r gwaith yn aml yn canolbwyntio ar yr Adain Weithredol.

Gofynnodd y Cynghorydd Jarman a fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi adolygiad gan gymheiriaid i weld a yw'r trefniadau sydd ar waith yn y Cyngor yma'n parchu a darpariaeth gyfartal fel nad oes unrhyw Aelod yn teimlo ei fod yn cael ei anwybyddu ".

**Ymateb gan y Cynghorydd Diamond**

"Dywedodd y Cynghorydd Diamond y byddai'n hapus i gefnogi adolygiad gan gymheiriaid er bod llawer o gefnogaeth i Aelodau Etholedig fel y Porth Aelodau sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Dywedodd fod y cyngor yn barod i wneud beth bynnag y gallai wneud i gefnogi Aelodau".

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Cullwick i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol ddydd Mawrth y 6ed o Hydref, dywedodd Mr Boris Johnson ei fod am wneud y DU yr hyn a ddisgrifiodd fel "Saudi Arabia o wynt", a dywedodd y byddai'r sector yn darparu “cannoedd o filoedd, os nad miliynau, o swyddi.” Beth yw eich barn am y cyhoeddiad hwn a sut y gall Rhondda Cynon Taf fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ac osgoi ‘grab’ arall o’r ardal fel glo yn yr 2 ganrif diwethaf?”

“At the Conservative Party conference on Tuesday, 6th October, Mr Boris Johnson said he wanted to make the UK what he described as “the Saudi Arabia of wind”, and said the sector would provide “hundreds of thousands, if not millions, of jobs”. What are your thoughts about this announcement and how can RCT maximise opportunities and avoid another asset grab like coal in the last couple of centuries?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Morgan**

“Esboniodd y Cynghorydd Morgan fod RhCT wedi cyflawni llawer o waith i gynhyrchu ei ynni ei hun a bod mor effeithlon â phosibl, megis gosod paneli solar ar holl adeiladau'r Cyngor ac adeiladau ysgolion yn ogystal â goleuadau stryd LED ac arbed ynni. Mae'r Cyngor wedi edrych ar gynlluniau hydro ac ar leoliadau addas o fewn y sir. Mae'r Cyngor yn siarad â phartneriaethau lleol, mae'r Cyngor yn barod i drafod yr holl gyfleoedd sydd ar gael i wella effeithlonrwydd a chynhyrchu ynni gwyrdd. Hefyd, dywedodd y Cynghorydd Morgan fod angen cefnogi prosiectau gan ddarparu cyllid a chymhellion i sicrhau bod ein Bwrdeistref Sirol yn elwa o'r cynlluniau os yw rhagor o ardaloedd gwyrdd yn cael eu datblygu."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd J. Cullwick**:

“Alla i ofyn pam bod cynifer o bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, y Blaid Lafur, Y Blaid Geidwadol, Y Democratiaid Rhyddfrydol, yn siarad a chanu am 'Hen Wlad Fy Nhadau' ond yn honni mai'r Deyrnas Unedig yw eu cartref " Mae'n bwysig nodi geiriau Mark Drakeford yn y sesiwn wybodaeth yr wythnos hon. Dywedodd Mr Drakeford ei bod yn ymdrech Genedlaethol ac roedd yn siarad am Gymru, wrth gwrs. Cyfeiriodd y Prif Weinidog hefyd at Keir Starmer fel ei Arweinydd, yn hytrach na Boris Johnston. Fy nghwestiwn i yw, pwy ydych chi'n meddwl sy'n gyfrifol am Gymru ar hyn o bryd? Ai Mark Drakeford, Keir Starmer neu Boris Johnston, Simon Hart, Tywysog Cymru neu rywun arall? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd Morgan:**

“Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan at gynllun Morlyn Llanw Bae Abertawe wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Cynigiwyd cefnogaeth gwerth £200miliwn ar gyfer y cynllun, Llywodraeth y DU a dynnodd yn ôl o’r prosiect. Mae RhCT yn dal i edrych ar fentrau lle mae'r awdurdod lleol yn elwa ac mae Cymru'n datblygu opsiynau gwyrdd. I gloi, nododd yr Arweinydd nad oedd y cwestiwn atodol yn gysylltiedig â'r cwestiwn cyntaf a ofynnwyd. ”

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Fychan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:-**

“All yr Aelod Cabinet ddiweddaru’r Cyngor ar y cynnydd sy’n cael ei wneud ar y targedau addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?”

“Could the Cabinet Member update us on the progress the Council is making on its Welsh medium education targets related to the Welsh Government’s target of a million Welsh speakers by 2050?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Rosser:-**

“Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod y Cyngor wedi ymrwymo’n llwyr i ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg a darpariaeth gofal plant ledled y Fwrdeistref Sirol ac yn parhau i symud tuag at gyflawni targedau LlC ar gyfer RhCT.

Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet bod 400 lle mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi'u creu yn rhan o'n buddsoddiadau ers 2012. Os yw'r galw yn agosáu at fod yn fwy na'r hyn sy'n cael ei ddarparu, yna rydyn ni'n targedu'r meysydd yma gyda chyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif, fel sydd wedi digwydd yn Ysgol Penderyn a chynigion eraill yn YGG Rhydywaun ac Ysgol Gynradd Dolau. Yn 2018, llwyddodd RhCT i sicrhau cyllid gwerth £4.5miliwn gan LC gan alluogi'r Cyngor i fuddsoddi mewn 7 darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg ar ein safleoedd ysgol. Mae cynlluniau wedi'u cwblhau yn Ysgol Llanharri, YGG Ynys-wen ac YGG Evan James, mae disgwyl i'r 4 cynllun arall gael eu cwblhau erbyn 2022".

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd H Fychan:**

“Dywedodd y Cynghorydd Fychan fod ei chwestiwn yn ymwneud â chynnydd y Cyngor yn erbyn ei dargedau ond bod mod trafod hyn nes ymlaen. Gofynnodd y Cynghorydd Fychan, o ran dyfarniad y llys gweinyddol yn achos Driver yn erbyn y Cyngor hwn, a yw'r Cyngor yn derbyn y dyfarniad a hefyd sut mae'r cyngor yn bwriadu gweithio gyda rhieni, athrawon, disgyblion a'r gymuned leol i bennu ffordd ymlaen mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd? ”

(**Nodwch:** Cynghorodd y Swyddog Cyfreithiol yn erbyn trafod manylion yr achos cyfreithiol sy'n parhau ar hyn o bryd gan annog Aelodau i beidio â thrafod unrhyw beth fyddai'n gwneud niwed i safbwynt y Cyngor yn rhan o’r achos a gafodd ei henwi gan y Cynghorydd Fychan).

**Ymateb y Cynghorydd J Rosser:**

“Dywedodd y Cynghorydd Rosser mai nod pennaf y Cyngor yw trawsnewid darpariaeth addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn ardal Pontypridd, trwy ddarparu buddsoddiad sylweddol i greu amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer y 21ain Ganrif. O ganlyniad i’r effaith ganlyniadol y gallai penderfyniad y llys ei chael ar gynigion ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol ledled Cymru, mae’r Cyngor wedi ceisio cyngor i apelio yn erbyn penderfyniad y llys, mae hyn wedi’i adlewyrchu ym mhenderfyniad LlC i gefnogi safbwynt y Cyngor ”.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Faint o swyddogion gorfodi parcio ydy’r Cyngor yn eu cyflogi a faint o incwm a gynhyrchwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**

"Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod 2 swyddog gorfodi parcio, Arweinwyr Carfan gorfodi parcio sifil sy'n costio £63,351, 12 swyddog gorfodi sifil ar radd 6 sy'n costio £306,355, costau ychwanegol i gynnal cerbydau sy'n cyfateb i £17,000 y flwyddyn. Cyfanswm yr incwm ar gyfer y gwaith gorfodi parcio a gyflawnodd y Cyngor yw £690,907. "

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd K Morgan:**

"Awgrymodd y Cynghorydd Morgan na fydd digon o swyddogion gorfodi parcio i weithio ym mhob rhan o RCT 24/7 a gofynnodd a allai'r cyngor ddefnyddio'r incwm a gynhyrchir i edrych ar ddatrysiadau eraill fel gosod camerâu yn y mannau sy'n achosi problemau gan feddwl mewn modd arloesol a buddsoddi ymhellach mewn cynlluniau rheoli traffig fel y gallwn osgoi dibynnu ar linellau melyn sydd ddim y cael eu gorfodi yn y Fwrdeistref? "

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**

"Awgrymodd y Cynghorydd Morgan fod y cyllid yn cael ei ddefnyddio gan yr adran Drafnidiaeth a Phriffyrdd oherwydd bod y cyllid wedi'i glustnodi gan y gyfraith. Croesawodd awgrymiadau ynghylch pa feysydd eraill dylai wynebu toriadau er mwyn ail-gyfeirio a dyrannu'r cyllid ".

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:-**

"All y Dirprwy Arweinydd rannu diweddariad mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu cyfleusterau gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd Craffu a chyfarfodydd y Cyngor?

**Ymateb y Cynghorydd M Webber:**

"Eglurodd y Cynghorydd Webber y bydd ychydig o oedi wrth gwblhau'r gwaith yn y Siambr o ganlyniad i'r mesurau sy'n dod i rym am 6pm ddydd Gwener yn rhan o'r cyfnod atal byr. Bydd y gwelliannau'n ein galluogi ni i ddarlledu cyfarfodydd a chynnwys ein cyfarfodydd rhithwir yn rhan o'r seilwaith newydd. Mae'r gwelliannau'n ymwneud â darparu mynediad gwell i'r holl aelodau a darparu cymorth ar gyfer dyfeisiau digidol a galluogi pleidleisio electronig, gan roi cyfle i aelodau fanteisio ar gydbwysedd gwell rhwng bywyd a'r gwaith Bydd y gwelliannau hefyd yn darparu gwasanaethau cyfieithu o ansawdd gwell yn y Siambr. Esboniodd y Cynghorydd Webber y byddai'n mynd i'r Siambr gyda Chadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd i weld y gwaith. "

**Ni ofynnwyd cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet**.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. S. Fox i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff Arweinydd y Cyngor amlinellu pa effaith y mae pandemig y coronafeirws wedi'i chael ar gyllid y Cyngor a pha gefnogaeth sydd wedi cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru?"

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

“Nododd y Cynghorydd A Morgan fod cyfanswm y golled yn chwarter cyntaf eleni yn cyfateb i £ 13.6m. Mae'r Cyngor wedi derbyn cefnogaeth dda gan LC hyd yn hyn ar ffurf dwy ffrwd o gyllid (bron i £1/2 biliwn er mwyn cefnogi llywodraeth leol) er mwyn cefnogi Cyfarpar Diogelu Personol, lleoliadau gofal cymdeithasol, pwysau ar staff ac asiantaethau (er mwyn llenwi swyddi'r staff hynny sy'n hunanynysu). Roedd colledion ym maes hamdden (bron i £2miliwn), arian cinio ysgol, ond mae'r Cyngor wedi gallu defnyddio'r cynllun ffyrlo yn y meysydd hynny, megis hamdden a staff arlwyo sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion. Dywedodd y Cynghorydd Morgan ei fod yn hyderus y bydd modd i'r Cyngor gyrraedd diwedd y flwyddyn heb bwysau enfawr gan Covid-19, os bydd LIC yn parhau i gefnogi'r Cyngor ar y lefel bresennol. Cyfeiriodd at bwysau eraill yn ystod cyfnod y gaeaf ond ychwanegodd fod y sefyllfa’n cael ei hadolygu a’i rheoli’n ofalus.”

**Ni ofynnwyd cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet.**

**(Nodyn: Cadarnhawyd, gan nad oedd y Cynghorydd E George yn bresennol, y byddai cwestiwn yr aelod yn cael ei hepgor).**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“All Arweinydd y Cyngor wneud datganiad ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth gyflawni ei flaenoriaethau?”

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**

“Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod heriau unigryw wedi codi eleni o ganlyniad i'r Coronafeirws, gyda llai o oriau gwaith o ganlyniad i gadw pellter cymdeithasol a materion eraill sydd wedi cael effaith. Mae effaith y llifogydd wedi rhoi straen ar staff ond mae'r broses o gyflawni'r rhaglen gyfalaf sylweddol, yn parhau. Hyd yn oed yn ystod y cyfyngiadau symud, bydd y gwaith yn parhau, bydd mwy o waith yn cael ei gyflawni o ran gosod wyneb newydd ar y ffordd tra bod llai o draffig ar y ffyrdd, bydd rhaglen waith gwerth miliynau o bunnoedd mewn perthynas â llifogydd yn parhau, gyda gwaith yn cael ei gyflawni ar waliau afonydd a chwlferi, ac mae gwaith ar fin cychwyn ar bont Marks and Spencer's.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan at raglen ehangach y Cyngor, mae'r gyfres nesaf o brentisiaethau yn cael eu hysbysebu ac mae disgwyl i gyfres arall gael ei chyhoeddi cyn y Nadolig.
O ran buddsoddi cyfalaf, mae'r Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm wedi agor ac mae Llys Cadwyn wedi agor, gan gynrychioli cynllun gwerth £38miliwn. Mae'r cynllun wedi darparu llyfrgell a champfa newydd, gan ddefnyddio cyllid Ewropeaidd gwerth £10miliwn a benthyca ychwanegol sy'n cael ei gyllido gan incwm rhent. Mae gwaith datblygu Ystad Diwydiannol Coed-elái a Thresalem wedi cychwyn. Mae trafodaethau yn parhau gyda datblygwyr ynghylch tai cymdeithasol i sicrhau bod grant tai cymdeithasol yn cael ei wario. Mae'r Cyngor wedi helpu i gynnal llawer iawn o swyddi. Mae yna gyllid ar gyfer prosiectau yng Nghwm Cynon ac yng Nghwm Rhondda a bydd y cyllid yma'n cael ei gyhoeddi'n fuan. Mae nifer o brosiectau'n cael eu cyflawni neu ar fin dechrau. Mae modd rhannu neges gadarnhaol ac mae'n bwysig ein bod ni'n cofio hyn."

**33 Rhaglen Waith Y Cyngor**

Yn dilyn gwaith diweddar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â llifogydd yn RhCT yn ystod 2020, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y byddai'r Sesiwn Ymchwiliad Craffu yn cael ei chynnal ar ôl Hanner Tymor ac y bydd hefyd yn cael ei thrafod yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 25 Tachwedd 2020.

**34 DIWEDDARIAD MEWN PERTHYNAS Â'R CORONAFEIRWS YN RHONDDA CYNON TAF**

Rhannodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf gan gynnwys y cyfnod atal byr a fydd yn dod i rym o 6pm ddydd Gwener, 23 Hydref.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod nifer sylweddol o achosion yn dal i gael eu nodi'n rhan o'r broses Olrhain Cysylltiadau, mae oddeutu 150-200 o achosion yn cael eu nodi bob dydd a thalodd deyrnged i waith caled parhaus y carfanau sydd ar y rheng flaen ac sy'n olrhain y cysylltiadau yma. Dywedodd fod y cyfyngiadau symud lleol diweddar yn sicr wedi arafu'r cynnydd yn nifer yr achosion, ac roedd gostyngiad am dri neu bedwar diwrnod. Nid oedd y mesurau lleol yn ddigon i roi diwedd ar ledaeniad y feirws.

Roedd yr Arweinydd yn gefnogol o'r mesurau a fydd yn dod i rym ond roedd yn cydnabod pa mor anodd yw hi i'r holl breswylwyr hynny sy'n rhan o'r cynlluniau cadw swyddi /ffyrlo oherwydd eu bod nhw ond yn mynd i dderbyn 67% o'u cyflog yn rhan o'r cynllun newydd o 1 Rhagfyr 2020. Dywedodd fod y Cyngor wedi lobïo Llywodraeth Cymru i ychwanegu cyfran o'r cynllun ffyrlo presennol ond mae hynny wedi bod yn aflwyddiannus.
Dywedodd yr Arweinydd fod 1,000 o achosion newydd y dydd yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd y nifer yma'n cynyddu hyd at y Nadolig felly mae'n bosibl y bydd y twf sy'n cael ei gyfeirio ati nawr fod llawer yn llai na'r twf ym mis Ionawr a Chwefror yn dilyn cyfnod y Nadolig. Mae angen gweithredu nawr.

Bydd llywodraeth leol yn gweinyddu'r pecynnau cymorth i fusnesau gwerth £300miliwn, mae £280miliwn wedi'i seilio ar y pecyn cymorth diwethaf a gynigiwyd. Bydd modd i fusnesau a oedd yn derbyn grantiau gwerth rhwng £10,000 a £25,000 yn seiliedig ar eu gwerth ardrethol hawlio cymorth os oes gofyn iddyn nhw gau.
Uchafswm y grant yw £5,000, gyda thaliad sylfaenol o £1,000. Mae taliadau o £500 ar gael i'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau neu sydd ar incwm isel os oes gofyn iddyn nhw hunanynysu. Mae dros £11miliwn wedi cael ei sicrhau i dalu am Brydau Ysgol am Ddim. Bydd y taliadau'n parhau i gael eu darparu yn ystod hanner tymor ac yn ystod gwyliau'r Nadolig a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf . Bydd y taliad gwerth £19.50 yr wythnos o fudd mawr i lawer o deuluoedd yn ystod y cyfnod anodd yma. Derbyniwyd dros 1,000 o geisiadau ychwanegol am brydau Ysgol Am Ddim yn ystod y pandemig gan bobl cymwys.

Dywedodd yr Arweinydd y bydd canolfannau ailgylchu yn y gymuned a llyfrgelloedd yn cau yn ystod y cyfnod atal byr, bydd oriau agor toiledau cyhoeddus yn lleihau i 10-4pm er mwyn denu preswylwyr i ganol y trefi i gefnogi busnesau canol y dref. Bydd canolfannau cymunedol yn cau a fydd dim modd i grwpiau o bobl gwrdd, ond gall unigolion sengl ymuno ag aelwyd arall i ffurfio swigen. Mae'r neges yn glir, arhoswch gartref o 6pm ddydd Gwener am bythefnos.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd pob Ysgol Gynradd yn aros ar agor a dim ond blynyddoedd 7 ac 8 a fydd yn mynychu Ysgolion Uwchradd, bydd disgyblion ym mlynyddoedd 9, 10, 11 a 12 yn derbyn darpariaeth dysgu o bell. Bydd Dechrau'n Deg a meithrinfeydd yn parhau i fod ar agor. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael cyn bo hir a bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi, bydd manylion ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn hanfodol a manylion am gyllid grant yn cael eu cyhoeddi yfory. Bydd y pecyn cymorth i fusnesau'n cael ei lansio ddydd Llun, 26 Hydref. Bydd y pecyn yn cael ei reoli gan adran Cyllid y Cyngor, a fydd yn gyfrifol am ddyrannu'r holl becynnau angenrheidiol i fusnesau. Bydd eiddo prydau parod (takeaway) yn derbyn taliad penodol, mae hyn oherwydd bod nifer o fusnesau prydau parod wedi bod yn gymwys i gael grant y tro diwethaf ond roedden nhw hefyd wedi parhau i fod ar agor. Bydd hynny'n cael ei adolygu y tro yma.

Dywedodd yr Arweinydd fod cyfarfodydd yn parhau gyda Gweinidogion ac ar lefel leol i drafod cymorth ychwanegol ar gyfer Banciau Bwyd ac mewn perthynas â chymorth ychwanegol ar gyfer darpariaeth Iechyd Meddwl a chwnsela.

Roedd yr Arweinydd wedi cydnabod y bydd y pythefnos nesaf yn gyfnod pryderus i nifer o bobl, gyda rhagor o gyfyngiadau'n cael eu rhoi ar waith, ond byddai'n arwain at rywfaint o normalrwydd yn yr hir dymor, yn enwedig yn ystod cyfnod y nadolig. Cafodd yr Aelodau eu hannog i nodi cynnwys y canllawiau ar ôl iddyn nhw gael eu cyhoeddi.

Gofynnodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd P Jarman (Plaid Cymru Plaid) y cwestiynau canlynol:

1. O ddydd Gwener ymlaen, ydy'r trefniadau lleol yn cael eu disodli gan reoliadau'r cyfnod atal byr o ran teithio ar draws ffiniau?

2. Taliad cymorth hunanynysu gwerth £ 500 - rydw i wedi cael gwybod bod y taliad ychwanegol yma ond ar gael yn Lloegr ac wedi dechrau ar 12 Hydref ac mae'r cynghorau lleol yn gweinyddu'r cynllun ond mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar weinyddu'r taliad. Mae'n gysylltiedig â thaliadau budd-daliadau fel Credyd Cynhwysol, Credyd Treth Gwaith, Budd-daliadau Tai ac os na allwch weithio gartref ac mae Cynllun Olrhain Cysylltiadau'r GIG wedi dweud wrthoch chi bod angen i chi hunanynysu, byddwch chi'n gymwys i gael y taliad yma. Hyd y gwn i, bydd yr unigolion hynny ond yn gymwys i gael y taliad pe byddai'r Cynllun Olrhain Cysylltiadau wedi gofyn iddyn nhw hunanynysu ond mae'r wybodaeth bellach sydd gen i'n cadarnhau nad yw ceiniog o'r arian yna wedi cael ei thalu.

Gofynnodd y Cynghorydd Powell (Grŵp Annibynnol RhCT) y cwestiynau canlynol:

1. Mae'r mapiau covid newydd yn dangos bod Trallwng bellach yn rhan o Gilfynydd a Dwyrain Pontypridd sy'n cwmpasu wardiau eraill. Mae'r mapiau'n dangos bod 19 achos yn yr ardal honno. Pam nad yw'r mapiau'n cynnwys manylion am y wardiau unigol?

2. Beth fydd yn digwydd os nad yw'r gwerth R wedi gostwng yn is nag 1 ar ôl y cyfnod atal byr?

Gofynnodd y Cynghorydd James, y Grŵp Ceidwadol y cwestiynau canlynol:

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r cyfnod atal byr a beth sy'n digwydd wedyn os na fydd y rhif 'R' yn gostwng?

2. Pa gamau ydy Arweinydd y Cyngor wedi'u cymryd i lobïo Llywodraeth Cymru o ran pa mor agored a thryloyw y mae LlC wedi bod mewn perthynas â'r penderfyniad y mae wedi'i wneud?

Eglurodd yr Arweinydd y bydd y taliad hunanynysu o £500 yn cael ei weinyddu gan y Cyngor a bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud cyhoeddiad ddydd Gwener ynghylch sut y bydd y taliadau'n cael eu gweinyddu ac mae'n bosibl y byddan nhw'n cael eu hôl-ddyddio.

O ran y mapiau y cyfeiriwyd atyn nhw gan y Cynghorydd Powell, nododd yr Arweinydd fod RhCT yn dal i gynhyrchu mapiau gan ddefnyddio data sy'n cael ei gyflwyno gan yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach. Mae'r Cyngor yn ceisio cynhyrchu gwybodaeth mor glir â phosibl.

Dywedodd yr arweinydd fod staff y Cyngor wedi bod yn gweithio'n barhaus gydag eiddo trwyddedig ac yn eu cynghori, fodd bynnag, bydd nifer o'r adeiladau hynny'n cael eu cau yn y 24 awr nesaf gan nad oedden nhw'n cydymffurfio â'r mesurau sydd ar waith.

Cafodd Aelodau wybod bod Arweinydd y Cyngor wedi bod ynghlwm â nifer o gyfarfodydd i drafod y data a'r opsiynau sydd ar gael, cyfarfodydd Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol, cyfarfodydd â'r Undebau Llafur, gydag Arweinwyr Busnes a chynrychiolwyr busnes i sicrhau bod barn pawb yn cael eu rhannu. Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau yn uniongyrchol i gynghorwyr gwyddonol a thechnegol ac i garfan Llywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod modd i gyfnod magu'r feirws fod yn fwy na 10 diwrnod ar ôl dal yr haint, dangos symptomau a chael prawf, felly mae'n glir na fyddwn ni'n gweld gwelliant yn ystod y cyfnod atal byr. Bydd modd gweld gwelliant yn ystod y cyfnod yn dilyn y cyfyngiadau symud. Yn ystod y diwrnodau diwethaf, mae rhwng 150-200 o achosion newydd wedi bod bob dydd yn RhCT, dyma'r rheswm am gyflwyno cyfyngiadau symud ac yn sgil achosion a marwolaethau mewn cartrefi gofal ac ysbytai.

Roedd yr Arweinydd wedi annog pob Aelod i ddarllen yr holl wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw.

**35 Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig – y Newyddion Diweddaraf**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21 tan 2023/24, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau modelu presennol, cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2021/22 yn ystod misoedd yr hydref.

Cafodd Aelodau wybod bod y sefyllfa economaidd genedlaethol yn parhau i fod yn ansicr gan fod y gyllideb sydd ar ddod bellach wedi'i gohirio ac mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant bellach yn debygol o fod am flwyddyn yn unig ac nid am y tair blynedd fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r goblygiadau cost ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r pandemig gan gynnwys incwm a gollwyd a chostau ychwanegol y mae'r Cyngor

yn parhau i'w hwynebu y tu allan i'w gyllideb graidd.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod rhai o'r rhagdybiaethau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun ariannol yn cynnwys lefelau setliad sydd wedi'u modelu ar ystod o sefyllfaoedd cynllunio ac sydd wedi'u llunio yn seiliedig ar gyllid Llywodraeth Cymru yn cyrraedd lefel o + 2%, + 3% a + 4% y flwyddyn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22, 2022/23 a 2023/24. Mae amrywiaeth bosibl y lefelau setliad gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith sylweddol ar y diffyg yn y gyllideb, sef £3.6M fesul 1% fel y dangosir yn yr ystod o ragdybiaethau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Cyngor yn nodi opsiynau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r ystod o fylchau posibl yn y gyllideb ond wrth wneud hynny bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cynnal ei wasanaethau hanfodol. Bydd yr adroddiad ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Cyllid a Chyflawniad, yn rhan o'u rôl fel ymgynghorwyr ar gyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol i'r cwestiwn mewn perthynas â chyllideb Ysgolion sydd wedi'i lunio i dalu am chwyddiant mewn cyflogau ac mewn costau eraill yng nghyd-destun yr ystod o lefelau setliad llywodraeth leol sydd wedi'u rhagweld ac mewn perthynas â dyrannu cyllid mewn perthynas â'r grant tlodi misglwyf.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad, PENDERFYNWYD **nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r 'Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21 tan 2023/24' a chael y newyddion diweddaraf yn nhymor yr Hydref yn rhan o'r broses pennu cyllideb flynyddol.**

**36 Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020/21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyflawni a Gwella adroddiad y Prif Weithredwr sy'n amlinellu Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol (drafft) Rhondda Cynon Taf, sy'n nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn 2019/20 a'r cynlluniau ar gyfer 2020/21 mewn perthynas â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Mae hefyd yn nodi sut mae'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol yn galluogi'r Cyngor i fodloni ei ofynion adrodd statudol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y ddogfen wedi cael ei hadolygu gan uwch swyddogion i sicrhau ei bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gytbwys o ran yr asesiad. Cafodd y ddogfen ei chyflwyno i'r Cabinet ar 13 Hydref 2020 a'i chymeradwyo gydag argymhelliad i'w chymeradwyo i'r Cyngor.

Mae'r adroddiad wedi'i lunio gan ystyried cyd-destun digwyddiadau digynsail Storm Dennis a phandemig y Coronafeirws ond nodir bod y cyflawniad a'r cynnydd wedi'i wneud yn ystod 2019/20 wedi bod yn gadarnhaol.

Mae'r cynlluniau gweithredu arfaethedig ar gyfer y blaenoriaethau wedi'u hadnewyddu sef Pobl, Lleoedd a Ffyniant yn canolbwyntio ar feysydd allweddol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a byddan nhw'n rhan o'r Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol a fydd yn cael eu trafod gan y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad eleni. Mae gan Archwilio Cymru ddyletswydd statudol i archwilio'r adroddiadau cyflawniad corfforaethol a fydd yn cael eu hadrodd i'r Cyngor maes o law.

Cafodd nifer o ymholiadau eu codi mewn perthynas â'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol (drafft). Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyflawni a Gwella wedi mynd i'r afael â'r rhain, mae rhai ohonyn nhw wedi'u nodi isod:-

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r adroddiad cyflawniad corfforaethol (drafft) gerbron yr Aelodau oedd y fersiwn derfynol i'w hystyried a'i chymeradwyo. Cadarnhaodd hefyd bod yr adroddiad yn gynhwysfawr ac y bydd gwasanaethau'r Cyngor yn trafod yr wybodaeth ac yn rhoi'r camau gweithredu angenrheidiol ar waith gan obeithio mynd i'r afael â'r meysydd y mae'r Cyngor angen eu gwella.

O ran cyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), does gan yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol ddim hawl i wneud sylw o safbwynt technegol, ond byddai'n cyfeirio ato o safbwynt asesu ffeithiol.

Codwyd ymholiad penodol mewn perthynas â beth yn union yw 'cynnydd da' mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd y maes gwasanaeth yn ymateb i'r ymholiad yma yn dilyn y cyfarfod.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod yr wybodaeth a gafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad yn cynnig trosolwg mwy holistig o ran cyflawniad ym mhob un o'r Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag mae yna gyfle i geisio gwybodaeth fanwl bellach ac ychwanegu eitemau at y rhaglenni gwaith, cyn belled â bod rhesymeg a deilliant eglur yn gysylltiedig â'r eitem.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol (drafft) (fel y nodir yn Atodiad 1) gan ystyried adborth y Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2020.

## 37 Llywydd

Ar y pwynt yma yn y cyfarfod, camodd y Dirpwy Lywydd i rôl y Cadeirydd am weddill y cyfarfod.

## 38 Gostyngiad Treth y Cyngor

Trwy ei adroddiad rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol gyfle i'r Aelodau adolygu lefel y gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer dosbarthiadau rhagnodedig o anheddau yn y Fwrdeistref Sirol ac adolygu, diwygio neu ailddatgan y lefel a ragnodwyd.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 3 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu gofynion y Cyngor mewn perthynas â darpariaeth gostyngiad Treth y Cyngor, gyda'r Cyfarwyddwr yn dweud bod gan y Cyngor ddisgresiwn i ddyfarnu gostyngiad o hyd at 50% mewn perthynas â dau ddosbarth o anheddau rhagnodedig (a ddisgrifir fel arfer fel ail gartrefi a chartrefi gwyliau). Hynny yw, Dosbarth A a Dosbarth B. Cafodd yr Aelodau gyngor pellach am anheddau Dosbarth C a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi penderfynu o'r blaen i beidio â chaniatáu gostyngiad mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B ac C. .

Yn dilyn trafodaethau, cwestiynau ac ymatebion y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i barhau â **dim** gostyngiad Treth y Cyngor mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B ac C.

39 **Ymateb i'r Rhybudd o Gynnig - Tân Gwyllt**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig a gafodd ei drafod gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2019 ac ymgyrch yr RSPCA yn galw am ragor o fesurau rheoli. Cyfeiriodd at ganlyniad y penderfyniad a gafodd ei wneud gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Hydref, ar ôl ystyried yr argymhellion a'r Hysbysiad o benderfyniad y Cabinet sydd wedi'i atodi.

Yn dilyn trafodaeth a gwelliant i'r cynnig bod y Cyngor yn ysgrifennu at gynrychiolwyr Seneddol Rhondda Cynon Taf er mwyn gofyn am gymorth wrth annog Llywodraeth y DU i ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Dethol ar y mater hwn, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi argymhellion Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ar y cyd â deiliad y portffolio perthnasol, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad Cabinet sydd wedi'i atodi (Atodiad 1);

2. Nodi deilliant penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod ar y 13 Hydref, ar ôl ystyried yr argymhellion; a

3. Bod y Cyngor yn ysgrifennu at gynrychiolwyr Seneddol Rhondda Cynon Taf er mwyn gofyn am gymorth wrth annog Llywodraeth y DU i ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Dethol ar y mater hwn.

40 **Penderfyniadau Brys o dan Swyddogaethau Gweithredol**

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod am y penderfyniadau brys a ddygwyd ymlaen trwy benderfyniad dirprwyedig allweddol yn ystod y cyfnod Gorffennaf - Medi 2020 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sy wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

41 **Newid Aelodaeth**

Yn unol â'r penderfyniad a gafodd ei wneud yn ystod cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Medi 2020, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei fod wedi derbyn hysbysiad gan y Grŵp Plaid Cymru o newidiadau i'w aelodaeth ar y Pwyllgorau canlynol:

- Bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox yn cael ei enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Webster yn rhan o newid i Aelodaeth y Pwyllgor Trwyddedu; a
- Bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Webster yn cael ei enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox yn rhan o newid i Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD:**

**1.** Bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Webster yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu; a

2. Bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Webster yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Cox yn rhan o'r Pwyllgor Archwilio.

**42 Materion Brys**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.15 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**